




Cofnodion

Senedd
4/11/2019


Agenda	Eitem	Nodiadau	Dadansoddiad Pleidleisio		
			O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Croeso a Sylwadau Agoriadol	Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a hysbysodd yr aelodau ynglŷn â sut byddai'r cyfarfod yn gweithio.	Roedd 16 Aelod o'r Senedd yn bresennol a barnwyd bod cworwm ar gyfer y cyfarfod.			
	Ymddiheuriadau am absenoldeb	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sophie Grave (Swyddog Menywod) a Laurine Wang (Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol).			
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Adolygwyd y cofnodion o gyfarfod 25/03/19.			
	Materion yn codi o'r cofnodion	Dim			
Etholiad y Dirprwy Gadeirydd Rhan 1	Gwahoddwyd ymgeiswyr oedd â diddordeb mewn sefyll i fod yn Ddirprwy Gadeirydd i ddod ymlaen.	Daeth 1 ymgeisydd ymlaen, Richard Hodgetts (Swyddog Myfyrwyr Hŷn).			

Adroddiad y Swyddogion	Rhoddodd Dhan Ramnatsing (Llywydd) grynodedb o Adroddiad y Swyddogion, sydd ar gael yn y papurau ar gyfer y cyfarfod.	Derbyniwyd cwestiynau ynghylch cynnydd o ran Hyfforddiant Cydsyniad ac effeithlonrwydd ynni'r cynllun i adnewyddu Pantycelyn.			
Etholiad y Dirprwy Gadeirydd Rhan 2	Areithiau	Traddododd Richard araith fer gan ofyn i'r Senedd ei ethol.			
	Pleidlais	Etholwyd Richard yn Ddirprwy Gadeirydd newydd y Senedd.	100%		
Cymeradwyo Ymddiriedolwr Allanol	Cyflwynodd Dhan fywgraffiad ar gyfer yr ymddiriedolwr allanol sydd newydd ei phenodi, Debra Croft, a gofynnodd i'r cyfarfod gadarnhau ei phenodiad.	Mae Debra bellach wedi'i chadarnhau fel Ymddiriedolwr Allanol	100%		
Hysbysiad o Bolisiau'n Dod i Ben	Roedd y ddogfen oedd ar gael yn amlinellu polisiau sy'n dod i ben eleni. Hysbyswyd y rheiny oedd yn bresennol bod yn rhaid i fyfyrwyr ailgyflwyno polisi sy'n dod i ben i Senedd neu Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol er mwyn i ni barhau i weithio arno.				
Senedd - Eich Syniadau	Trafod y syniadau a gyflwynwyd i'r Senedd, ac yna cynhaliwyd pleidlais arnyn nhw.				
1	Tryloywder o ran buddsoddiadau a gallu myfyrwyr i bleidleisio (Ruth Hogg)				
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Ruth Hogg y syniad i'r Senedd			
	Gwelliant (Sivert Havso)	Derbyniodd Ruth y gwelliant a gynigiwyd ac aeth y Senedd ymlaen i bleidleisio ar y rhannau fel yr amlinellwyd.			
	Pleidlais i dderbyn rhan 1	Derbyniwyd	81%	13%	6%
	Pleidlais i dderbyn rhan 2	Gwrthodwyd	29%	64%	7%
	Yn ôl i'r Syniad Gwreiddiol	Parhaodd trefn y ddadl gyda'r Syniad bellach wedi'i ddiwygio.			



	Cwestiynau (i'r cynigydd)	Roedd y cwestiynau'n cynnwys faint o fanylder oedd ei angen o ran y rhestrau, e.e. rhiant-gwmnïau, ac a allai hyn effeithio ar berthynas y Brifysgol â chwmnïau rhyddfrait fel <i>Starbucks</i> . Cytunwyd pe bai'r syniad yn pasio, byddai'n rhaid ystyried adnoddau ac ymarferoldeb.			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn annhebygol o gyflawni unrhyw beth; nid oes ots gan fyfyrwyr mewn gwirionedd ac mae ganddynt flaenoriaethau uwch <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n beth cadarnhaol i fyfyrwyr allu ei weld Gallai ffurfio sail i bolisi buddsoddiadau moesegol a darparu cyfleoedd gwirfoddoli Gallai hyn gefnogi a ffurfio rhan o'n gwaith ar ddadfuddsoddi rhag tanwydd ffosil Byddai hyn yn helpu myfyrwyr i deimlo mwy o gysylltiad â'r Brifysgol Mae'r mater hwn yn flaenoriaeth sy'n fwy na'r Brifysgol yn unig. 			
	Pleidlais	Pasiwyd	87%	13%	
2	Cynnal Gŵyl Gelfyddyd Prifysgol Aberystwyth! (Iris Kalian)				
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Iris Kalian y syniad i'r Senedd			


	Cwestiynau	Roedd y cwestiynau'n cynnwys a fyddai pob cymdeithas yn gallu cymryd rhan, a pha mor hir ddylai'r digwyddiad bara. Gwnaeth yr atebion yn glir y dylid caniatáu i bob myfyriwr gymryd rhan ac y byddem yn gweithio gyda grwpiau i weld pwy sydd eisiau cymryd rhan. Bydd hyd y digwyddiad yn dibynnu ar lefel ymgysylltiad, ond byddai digwyddiad undydd yn ddechrau da.			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n ymddangos bod hyn yn cynnwys cymdeithasau nad ydynt yn seiliedig ar y celfyddydau, e.e. Y Gymdeithas Ddadlau <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> Os yw pwyllgorau myfyrwyr yn cymryd rhan ac y gallwn gynllunio'r logisteg yn iawn - pam na fyddem yn gwneud hyn? Mae'n edrych yn dda i Brifysgol Aber ddathlu'r celfyddydau, gan nad yw'r celfyddydau'n cael llawer o gariad ar hyn o bryd Mae gweithio ar bethau tebyg wedi ennyn llawer o gefnogaeth gan Staff y Brifysgol, a byddent yn debygol o allu cynnig help ac adnoddau 			
	Pleidlais	Pasiwyd	100%		
3	Gofal iechyd i'n myfyrwyr Traws (Lyra J Hawkins)				



	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Lyra J Hawkins y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Roedd y cwestiynau'n cynnwys dynodi'r 'buddugoliaethau' a'r hyn y gallai'r UM ei wneud i gyflawni'r polisi hwn, yn ogystal ag a ddylai'r cyfrifoldebau fod gyda'r gwasanaethau iechyd neu aelodau seneddol (ASau). Esboniodd yr atebion y byddai'n broses barhaus gyda llawer o fuddugoliaethau bach. Mae gan y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr gysylltiadau uniongyrchol ac maent yn cwrdd yn rheolaidd â phenaethiaid Meddygon Teulu Aberystwyth. Ni chafwyd ymateb eto gan yr AS lleol ar y mater hwn.			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau o blaid: <ul style="list-style-type: none"> Gallai fod adnoddau llawer gwell ar gael fel hyfforddiant neu gysylltiadau â sefydliadau eraill Nid yw pethau'n wych ar hyn o bryd, a gallent yn sicr fod yn well. Y tri phrif faes gwaith fyddai iechyd corfforol, iechyd meddwl a gweithio'n agos gyda'r Brifysgol. 			
	Pleidlais	Pasiwyd	100%		
4	Ymgyrch Dim Slaf dai (Dhan Ramnatsing)				
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Dhan Ramnatsing y syniad i'r Senedd			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau o blaid: <ul style="list-style-type: none"> Mae'n bwysig iawn cefnogi hyn 			



		<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithwyr mewn slafdai'n wynebu amodau ofnadwy a gwrthodir hawliau iddynt ymuno ag undebau; mae <i>Electronics Watch</i> yn helpu'r bobl hyn i helpu eu hunain. 			
	Pleidlais		100%		
5	Polisi Cynhadledd Rhyddhad UCM (Mark Marshall)				
	Araith y cynigydd	Cyflwynodd Mark Marshall y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Derbyniwyd cwestiwn am y deddfau newydd sy'n dod i rym yng Nghymru fel gwlad ddatganoledig. Roedd yr ateb yn egluro y dylai'r deddfau effeithio ar y DU gyfan ond byddem yn gweithio gydag UCM ac UCM Cymru ar faterion datganoledig.			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cytuno â hyn, ond yn erbyn y ffaith ei fod yn bolisi 3 blynedd - nid yw'n gofyn i'r UM wneud unrhyw beth <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cam gwirioneddol bwysig ymlaen, rydyn ni i gyd wedi cael ein siomi gan y system a bydd hyn yn sicrhau bod myfyrwyr y dyfodol yn cael eu haddysgu am fodolaeth pobl LHDTC+ Byddai'r syniad hwn yn rhoi gorchymyn gan yr UM i fynd â'r mater i gynadleddau cenedlaethol a gweithio gydag UCM 			



	Pleidlais	Pasiwyd	69%	19%	13%
Unrhyw Fusnes Arall	Cofiwch gofrestru i bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol.				